creu drws newydd, gyda ffenestr to o fath cadwraethol ar y pen. Ar yr ochr dwyreiniol bwriedir cadw un lleoliad drws pren gwreiddiol sydd ar y pen i'r ystorfa, a gosod un drws wydr a ffenestr fach ar weddill yr estyniad a fydd yn edrych allan i'r môr. Fel y nodi'r uchod, to "lean to" sydd yn bresennol ar yr adeilad allanol, a bwriedir newid hyn gyda tho brig llechi.

5.8 Ni ystyrir fod yr estyniad yn ormodol o ran maint, nac ei fod yn cael effaith ormesol ar unrhyw eiddo cyfagos, mae'r estyniad oddeutu 1.7m yn fwy o ran lled ar ei fwyaf na'r estyniad presennol, ac mae'n gyfystyr a'r presennol o ran hyd a dim mwy na 0.1m yn uwch o ran uchder; ni ystyrir fod hyn yn ormodol nac yn annerbyniol yn nhermau'r polisïau a nodir uchod.

5.9 Mae bwriad o osod ffenestri llawr cyntaf yn yr estyniad yn wynebu tua chyfeiriad Porth Penrhyn. Mae'r ffenestri yma yn edrych dros gwrtil preswyl yr eiddo ei hun ynghyd a thir cyhoeddus (traeth a llwybr). Ni ystyrir y byddai'r ffenestri yma yn achosi unrhyw or-edrych i eiddo arall. Mae bwriad hefyd i godi ffens hyd at 1.8m o uchder sy'n ynghlwm i'r eiddo. Bwriedir gwneuthuro'r ffens yma o bren.

5.10 Mae bwriad o osod llechi ar do'r estyniad, a gorchuddio waliau'r estyniad gyda rendr i gydweddu â'r eiddo presennol.

5.11 O ganlyniad i'r uchod, ystyrir fod y bwriad i ymestyn yr adeilad presennol yn addas ac yn cydweddu â'r annedd bresennol yn nhermau ei faint, dyluniad, a deunyddiau. Ni ystyrir felly fod y bwriad yn groes i ofynion polisïau B22, B23 na B25 o'r Cynllun Datblygu Unedol sy'n ymwneud ag asesu dyluniad y bwriad, mwynderau a deunyddiau allanol.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.12 Yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus, derbyniwyd sawl gohebiaeth yn gwrthwynebu, ac yn nodi fod yr estyniad yn fwy na'r presennol ac yn amharu ar hawl mynediad sydd gan y cymdogion o gwmpas yr eiddo ac i lawr i'r traeth, na ddylai ddymchwel adeilad rhestredig, nad yw'r cynllun yn cadw at gymeriad na graddfa'r adeilad hanesyddol yma, fod y bwriad yn debygol o gael effaith ar awyrgylch agored y rhan yma o'r teras, fod y ffens bwriadedig yn effeithio ar hawl mynediad, ac effaith ar gymeriad yr adeilad rhestredig a'r teras fel grŵp.

5.13 Ystyrir fod cynnwys yr adroddiad uchod yn delio gyda'r gwrthwynebiadau uchod.

5.14 Er eglurdeb, mae'r llwybr sy'n rhedeg i lawr ochr yr eiddo sy'n destun y cais yma yn ymddangos o fewn perchnogaeth yr ymgeisydd; ac nid oes dadl yn erbyn hyn. Nid yw'r llwybr yma yn llwybr cyhoeddus, ac felly mae honiad o hawl mynediad ac unrhyw effaith arno yn fater sifil, ac nid yw'n fater i'r cais. Mae'n ymddangos o'r cynllun fod bwriad i godi ffens 1.8 a 1.2m o uchder ar hyd yr eiddo a ffin y safle gyda wal ochr y traeth, ac mae honiadau y byddai'r ffens yma yn amharu ar fynediad i lawr y grisiau at y traeth. Gan fod o ffens o fewn cwrtil eiddo rhestredig, nid oes unrhyw ddatblygiad caniataol yn bodoli ac felly mae angen caniatâd cynllunio. Byddai codi y ddau ffens yn rhywbeth eithaf dros dro a all ei newid yn ôl yn y dyfodol heb amharu ar yr adeilad rhestredig. Mae'r safle hyn hefyd yn eithaf guddiedig gyda llawer o goed ar y safle, ac ni ystyrir y byddai'n achosi niwed arwyddocaol i gymeriad pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeilad rhestredig nac ychwaith fwynderau trigolion cyfagos. Mae hawl tramwy cyhoeddus yn rhedeg heibio cefn teras Glandŵr a thua tai y Bae, ond mae'r llwybr yma wedi ei leoli tu allan i safle'r cais, ac nid yw'r bwriad yn amharu arno.

